Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion**
**Gofalu am Eich Splint**
**Yr Arddwrn a'r Bawd**

**Gwasanaethau Rhewmatoleg**
**Therapi Galwedigaethol**

---



***Gofalu am Sblint***

Roedd y sblint wedi'i osod yn arbennig ar eich cyfer chi. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â diben eich sblint, cysylltwch â'r therapydd a enwir isod.

***Enw'r sblint*** Brês Pro Rheuma ar gyfer y garddwrn a'r bawd

Dde / Chwith Bach / Canolig / Mawr / Mawr Iawn

***Pwrpas y sblint***

- Helpu i leihau chwydd
- Helpu i leihau poen yn yr arddwrn / bawd
- Darparu cefnogaeth i'r arddwn a'r bawd pan fydd y law yn symud

***Pryd i wisgo'r sblint***

(gwisgwch am 30 munud yn y lle cyntaf ac yna gwiriwch y croen i weld a oes rhannau coch / adweithiau croen)

Yn ystod y dydd 2 awr ymlaen / 2 awr i ffwrdd

Yn ystod gweithgareddau bywyd dydd i ddydd

Arall: ___________________________________

***Rhagofalon***

1. Os ydych chi'n teimlo pinnau bach, ac yn gweld mannau coch oherwydd rhwbio, neu os ydych yn cael adwaith alergaidd i'r sblint, stopiwch ei wisgo ar unwaith a chysylltwch â'ch Therapydd a enwir isod.

2. Peidiwch â newid eich sblint eich hun.

3. Rydym yn eich cynghori i roi gwybod i'ch cwmni yswiriant os ydych yn gwisgo eich sblint wrth yrru.

4. Mae'r deunydd y mae eich sblint wedi'i wneud ohono yn fflamadwy ond nid yw'n peri mwy o risg na'ch dillad.

***Glanhau***

1. Gellir golchi eich sblint â llaw mewn dŵr cynnes – nid poeth – sebonllyd. Tynnwch y postiau metel yn gyntaf.

2. Peidiwch â'i roi yn y peiriant golchi / peiriant sychu dillad.

3. Sicrhewch fod eich sblint yn hollol sych cyn ei roi ymlaen.

**Therapydd:**

Dyddiad Rhoi y Sblint - .........................     **Dyddiad adolygu:**

**"This document is available in English /**
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".**